

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithio mewn mannau cyfyng fel aelod o dîm achub ac adfer. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Bydd angen i dîm argyfwng fod ar gael pan fydd yr asesiad risg ar gyfer man cyfyng yn pennu ei fod yn angenrheidiol. Mae tîm argyfwng yn dîm ymroddedig a gall fod yn dîm mewnol, contractwyr arbenigol neu'r gwasanaethau brys trwy drefnu ymlaen llaw.

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi ar gyfer cynnal gweithgareddau argyfwng, mynd i mewn ac allan o fannau cyfyng yn ddiogel, defnyddio cyfarpar argyfwng, adfer pobl sydd wedi'u hanafu, a defnyddio dyfeisiau yn unol â manylion gwneuthurwyr, achub ac adfer pobl sydd wedi'u hanafu, dilyn gweithdrefnau a gweithio'n ddiogel.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un o unrhyw sector sy'n gweithio'n rhan o dîm achub ac adfer mewn mannau cyfyng.

Gweithio fel aelod o dîm achub ac adfer mewn mannau cyfyng

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadw at asesiadau risg a chynlluniau achub cyfredol sy'n ymwneud â safleoedd penodol cyn dechrau ar y gwaith achub ac adfer
2. cynnal asesiadau risg deinamig o amodau a sefyllfaoedd mewn mannau cyfyng cyn mynd i mewn iddynt a thrwy gydol y gwaith achub ac adfer
3. sefydlu a phrofi protocolau cyfathrebu gyda'r person wrth y llyw a gwirio'r amseroedd ymateb a amcangyfrifir
4. sefydlu a phrofi systemau signalau a chyfathrebu sy'n addas ar gyfer tasgau cyn mynd i mewn i leoedd cyfyng a'u croesi
5. dewis cyfarpar diogelu personol priodol (PPE) sy'n ffitio ac mewn cyflwr da
6. dewis cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng sy'n briodol ar gyfer yr amodau cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
7. cadarnhau bod offer diogelwch yn gydnaws â chyfarpar y mae pobl yn ei gael drostynt eu hunain a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd wedi'i ddyrannu ar eu cyfer.
8. archwilio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng cyn dechrau gweithio a'u defnyddio, a chael cyfarpar newydd pan mae'n ddiffygiol
9. ffitio cyfarpar diogelwch dynodedig a'i addasu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
10. datrys unrhyw broblemau gyda chyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng a rhoi gwybod i bobl briodol am ddiffyg cydymffurfio
11. monitro cyfarpar diogelwch trwy gydol y cyfnod y caiff ei ddefnyddio
12. cael caniatâd i fynd i mewn gan y bobl ddynodedig sy'n goruchwyllo'r gwaith
13. gosod, profi a chofnodi canlyniadau cyfarpar monitro priodol cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
14. cynnal parthau diogelwch a rheoli mynediad a symudiad pobl a cherbydau o amgylch mynediadau mewn sefyllfaoedd pan mae angen cadw pobl draw
15. gweithio yn unol â chynlluniau achub ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng, eu gadael a symud o fewn iddynt
16. defnyddio dulliau penodedig er mwyn mynd â chyfarpar ac offer diogelwch, dianc ac argyfwng i mewn i fannau cyfyng
17. datrys unrhyw broblemau gyda chyfarpar ac offer diogelwch, dianc ac argyfwng cyn ac wrth eu defnyddio

18. datrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â mynd i mewn, gadael neu waith achub ac adfer gyda'r bobl berthnasol
19. dilyn gweithdrefnau cyflogwyr ar gyfer gweithio'n ddiogel a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr cyfarpar
20. monitro amodau a lefelau risg mewn mannau cyfyng ar adegau y cytunir arnynt
21. cymryd camau priodol i reoli pob risg a chywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel ar unwaith
22. monitro newid gwybodaeth o gyfarpar monitro ac ymateb iddi'n barhaus
23. ymateb ar unwaith i amodau sy'n newid
24. cynnal gweithgareddau achub ac adfer yn unol â gweithdrefnau trwy gydol digwyddiadau
25. asesu'r rhai sydd wedi'u hanafu a'u blaenoriaethu yn unol â gweithdrefnau argyfwng
26. rhoi cymorth cyntaf sylfaenol pan mae'n briodol i chi wneud hynny
27. symud y rhai sydd wedi'u hanafu i leoliadau diogel mewn ffyrdd sy'n lleihau anafiadau pellach
28. cofnodi digwyddiadau argyfwng a'u hamgylchiadau ac adrodd amdanynt yn unol â gweithdrefnau
29. cwblhau'r holl ddogfennaeth a'r adroddiadau ar adegau priodol
30. anfon dogfennaeth ac adroddiadau ymlaen at y bobl briodol ar unwaith
31. sicrhau bod cyfarpar ac offer diogelwch, dianc ac argyfwng yn cael eu hadfer o fannau cyfyng ar adegau priodol
32. cau mannau gwaith a'u gwneud yn ddiogel pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau
33. gwirio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng ar ôl eu defnyddio a gadael yn ddiogel, a chadarnhau eu bod yn cyd-fynd â manylion cyn eu storio yn y storfa ddynodedig yn barod ar gyfer y gwaith nesaf.

Gweithio fel aelod o dîm achub ac adfer mewn mannau cyfyng

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth
4. diffiniadau o sefyllfaoedd peryglus a gwahanol fathau o beryglon a chategorïau ohonynt
5. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risg a nodwyd yno
6. peryglon, sylweddau a sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng
7. asesiad deinamig o sut i leihau'r risg o anaf i chi'ch hun, cydweithwyr a'r cyhoedd
8. sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
9. sut i archwilio Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE), ei ffitio a'i wisgo
10. cyfarwyddiadau gwneuthurwyr ynghylch defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng
11. cyfyngiadau cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng a sut i nodi pan nad yw'n gweithio
12. deddfwriaeth a chodau ymarfer a chanllawiau cymeradwy ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng
13. eich rôl wrth weithio'n rhan o dîm a sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel wrth weithio gydag eraill
14. mathau o sefyllfaoedd argyfwng a chategorïau ohonynt
15. y rolau a'r cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael ag argyfyngau
16. gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau, digwyddiadau a damweiniau fu ond y dim iddynt ddigwydd
17. sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol a phryd mae'n briodol gwneud hynny
18. sut i gynorthwyo pobl sydd wedi'u hanafu a'u symud
19. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng risg uchel
20. sut i asesu risgiau a pheryglon
21. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon sy'n newid
22. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n addas i ddsbarth y man cyfyng ac amodau lleol
23. sut i leihau risgiau hyd at lefel dderbyniol ar gyfer gwneud gwaith achub ac adfer

24. y gwahanol fathau o gyfarpar monitro, eu cyfyngiadau a sut i'w defnyddio er mwyn ymateb i amodau
25. pam mae'n bwysig bod yn effro i amodau sy'n newid a datrys problemau ar unwaith
26. gweithdrefnau diheintio
27. sut i ddatrys problemau pan fydd pobl neu sefydliadau eraill yn cymryd rhan
28. dulliau cyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl eraill yn ystod gweithrediadau achub ac adfer
29. sut i ddilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau gwneuthurwyr ar gyfer paratoi, cyn ac ar ôl cynnal archwiliad, a defnyddio cyfarpar diogelwch, dianc ac argyfwng
30. systemau adrodd ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng

Gweithio fel aelod o dîm achub ac adfer mewn mannau cyfyng

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS08
Galwedigaethau perthnasol	Peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg uchel; risg ganolig; risg isel; risg benodol; mynd i mewn; mynd allan; diogelwch; cyfarpar mynediad; argyfyngau; digwyddiadau; achub, adfer; dianc, tîm argyfwng; anafedig; sefyllfa argyfwng